

2. Casglwch enghreifftiau o emynau sy'n cynnwys y ddelwedd o 'ddŵr' a 'syched'. Gofynnwch i aelodau'r grŵp pa un fydden nhw'n uniaethu ag ef a pham?

Gallech ofyn i aelodau'r grŵp ymlaen llaw i feddwl am eu hoff emyn sy'n sôn am 'ddŵr' neu 'syched'.

3. Gofynnwch i aelodau'r grŵp os oes ganddynt brofiad o foment o gyfarfyddiad (encounter) gyda Duw?

Sut roedden nhw'n teimlo ar y foment honno? Beth wnaeth iddyn nhw feddwl ei fod yn gyfarfyddiad gyda Duw? Oedden nhw'n gweld bywyd mewn ffordd wahanol wedi'r cyfarfyddiad? A wnaeth y cyfarfyddiad iddyn nhw newid rhywbeth ynglŷn â'u hunain neu eu bywyd?

4. Ystyriwch yn eu tro bob un o'r elfennau gwahanol sydd yn eich oedfa arferol ar y Sul h.y. emyn, darlleniad, gweddi, pregeth, sgwrs gyda'r plant, cerddoriaeth ayb.

Beth yw eu cryfderau? Ydy'r cydbwysedd rhyngddynt yn iawn? Oes ffordd o'u gwella? Sut gellid eu defnyddio'n wahanol? Oes yna elfennau eraill yr hoffech eu cynnwys yn yr oedfa?

Noder: Bydd y ffilm nesaf ar gael i'w lawrlwytho o wefan yr Undeb yn ystod mis Rhagfyr 2018.

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg Cynllun Y Ffordd



Addoliad

Blwyddyn 2, Rhan 4
Tachwedd 2018

Sut i ddefnyddio'r deunydd

Fe welwch fod y ffilm 'ADDOLIAD' wedi'i rhannu yn bedair pennod gyda chyflwyniad ar y dechrau. Awgrymwn eich bod yn rhannu'r ffilm fel y bo'n addas i chi. Ceir cwestiynau ar gyfer y penodau unigol ar waelod y dudalen hon a thudalennau 2 a 3.

Cyflwyniad

Pennod 1: *Beth yw addoliad?*

Pennod 2: *Pa mor ganolog yw'r Beibl wrth addoli?*

Pennod 3: *Lle cerddoriaeth wrth addoli*

Pennod 4: *Technoleg newydd*

Ar dudalennau 3 a 4 o'r daflen hon mae nifer o weithgareddau eraill i helpu llenwi'r sesiynau, ond cyn gorffen pob sesiwn byddai'n dda i'r grŵp drafod y cwestiwn:

***Beth allwn ni fel eglwys ei wneud
yn dilyn y drafodaeth hon?***

Cwestiynau i'w trafod

Cyflwyniad a Phennod 1: Beth yw addoliad?

1. Sut fydddech chi'n ateb y cwestiwn, beth yw addoliad?
2. Pa roddion neu fendithion gan Dduw rydych chi'n ddiolchgar amdanynt?
3. Ydi addoli yn gwneud i chi deimlo'n gyffrous?
4. Pa eiriau sy'n disgrifio'ch teimladau chi orau wrth fynd i oedfa? Pa eiriau sy'n disgrifio orau eich teimladau chi ar ddiwedd oedfa?
5. Beth yw'r gwahaniaethau pennaf rhwng addoli ar eich pen eich hunan ac addoli yng nghwmni pobl eraill?
6. Pa elfen o'r addoliad ar y Sul sy'n rhoi'r mwyaf o foddhad i chi? Pam?

Pennod 2: Pa mor ganolog yw'r Beibl wrth addoli?

1. A yw'n bosibl addoli heb ddefnyddio'r Beibl?
2. Pa fersiwn o'r Beibl sydd fwyaf o gymorth i chi wrth addoli?
3. Oes yna ffyrdd eraill o ddeall beth yw ewylllys a dymuniadau Duw ar wahân i'r Beibl?
4. Mae canu darnau o'r Beibl yn ganolog i addoliad rhai traddodiadau eglwysig, ond nid yn gymaint i'n traddodiad ni fel Annibynwyr. Pam?
5. Ydych chi'n credu bod gan y Beibl rhywbeth perthnasol i'w ddweud am bob sefyllfa mewn bywyd?
6. Ydych chi'n teimlo bod addoliad eich eglwys yn eich helpu chi i fyw'r bywyd Cristnogol yn well gweddill yr wythnos?

Pennod 3: Lle cerddoriaeth wrth addoli

1. Ydi addoliad eich eglwys yn adlewyrchu diwylliant y gymuned o'i chwmpas? Sut allai wneud hynny yn well?

2. Byddech chi'n dweud bod arferiad yn gryfder neu'n rhwystr i wir addoliad? Neu a yw'r ddau beth yn wir?
3. Oes yna le i alawon gwerin ac alawon canu cyfoes o fewn addoliad?
4. Beth fydddech chi'n dweud yw cryfderau a gwendidau *Caneuon Ffydd*?
5. Ydi dulliau addoli mynegol, fel codi breichiau neu guro dwylo, yn gwneud i chi deimlo'n anghysurus? Pam?
6. Beth sy'n gwneud addoliad yn ddilys (genuine) i chi?

Pennod 4: Technoleg Newydd

1. Pam ein bod ni fel anghydfurfwyr wedi bod yn amharod i ddefnyddio'r gweledol wrth addoli?
2. Beth sy'n gyfrifol bod llawer o aelodau'r eglwys yn amharod i weld newid yn y ffordd o addoli?
3. A allwch chi feddwl am enghreifftiau o ddefnydd o gyfryngau gweledol sydd wedi gwneud addoli yn fwy real ac effeithiol i chi?
4. 'Gellir newid y cyfrwng ond dydi'r neges byth yn newid.' Trafodwch.
5. 'Mae'r dulliau cyfoes yn tynnu pobl i mewn.' Fydddech chi'n cytuno â hynny?
6. 'Gweld y posibiliadau' a 'Byddwch yn ddewr'. Ydy hynny'n disgrifio'r addoliad yn eich eglwys chi? Beth yw'r rhwystrau pennaf i eglwys allu gweld y posibiliadau a bod yn ddewr?

Gweithgarwch Ychwanegol

1. **Darllenwch Ioan 4: 4–24 'Iesu'n siarad â gwraig o Samaria.'**
Beth mae'r sgwrs rhwng Iesu a'r wraig yn dweud wrthyf chi am addoliad?